**CYPE(6)-25-22 - Papur i'w nodi 8**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**—**

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

30 Tachwedd 2022

**Gwahoddiad i ymuno â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Annwyl Russell,

Yn dilyn ein sesiwn ddiweddar gyda Mind Cymru ar eu hadroddiad Sortiwch y Switsh, rydym wedi trefnu sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar bontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion. Cynhelir y sesiwn hon rhwng 10am ac 11am ddydd Iau 15 Rhagfyr. Hoffwn wahodd aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymuno â ni ar gyfer y sesiwn hon, o dan Reol Sefydlog 17.49. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar ffurf hybrid.

Rydym wedi gwahodd y bobl ifanc i gyflwyno cwestiynau cyn y sesiwn er mwyn llywio ein gwaith o holi cwestiynau.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech roi gwybod i ni erbyn dydd Mercher 7 Rhagfyr pa rai o'ch Aelodau, os o gwbl, a hoffai ymuno â ni ar gyfer y sesiwn, a sut yr hoffent ymuno. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

We welcome correspondence in Welsh or English.